# Hysbysiad Preifatrwydd – Ysgol Gynradd Gatholig yr Enw Sanctaidd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymdrin â sut y bydd Ysgol Gynradd Gatholig yr Enw Sanctaidd (fel y rheolydd data) yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu eich data personol at ddibenion addysg eich plentyn.

**Pam y mae angen eich gwybodaeth arnom (diben prosesu)**

Rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn inni allu darparu addysg i'ch plentyn.

Caiff yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/trosedd neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chosteffeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, caiff gwybodaeth ei rhannu â'n Gwasanaeth Archwilio yng Nghyngor Sir Penfro ac ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (Polisi Preifatrwydd a Chwcis Archwilio Cymru).

Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a byddwn ond yn casglu'r wybodaeth bersonol y mae arnom ei hangen er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn i chi.

**Pa ddata personol sy'n cael eu casglu?**

Dyma'r categorïau data personol sy'n cael eu casglu:

**Data disgyblion a data ADY:** Enwau, dyddiad geni, rhif unigryw y disgybl, cyfeiriad, manylion cyswllt rhiant, manylion brawd neu chwaer os ydynt yn yr un ysgol, crefydd, ethnigrwydd, cofnodion iechyd a meddygol, alergeddau, gofynion deietegol, gwybodaeth am ADY.

**Cofnodion staff:** Manylion cyswllt, perthynas agosaf, manylion DBS

**Llywodraethwyr ysgol:** Cyfeiriadau e-bost, enwau

**Delweddau:** Ffotograffau

**Trip ysgol / ymweliadau:** Manylion cyswllt mewn argyfwng, manylion meddygol, alergeddau.

**Gwybodaeth am ymwelwyr / manylion mewngofnodi ymwelwyr:** Enw, llofnod

**Staff cyflenwi:** CV, cofnod o bwy sydd wedi bod i mewn a phryd, cyfeiriad e-bost, ffotograff.

**Adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau:** Dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad, enw (a dosbarth) yr unigolyn sydd wedi'i anafu neu sy'n sâl, manylion yr anaf neu salwch, manylion unrhyw gymorth cyntaf a ddarparwyd, enw a llofnod y swyddog cymorth cyntaf neu'r unigolyn sy'n ymdrin â'r digwyddiad, dyddiad geni, a gysylltwyd â'r rhiant.

**Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) yn ei gwneud yn ofynnol bod amodau penodol yn cael eu bodloni i sicrhau bod eich data personol yn cael eu prosesu mewn ffordd gyfreithlon. Dyma'r amodau perthnasol hyn isod:

- Erthygl 6(1)(b) Contract: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennym gyda chi, neu oherwydd eich bod wedi gofyn i ni gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.
- Erthygl 6(1)(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail gyfreithiol glir.
- Erthygl 6(1)(f) Buddiannau cyfreithlon: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti, oni bai bod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n drech na'r buddiannau cyfreithlon hynny.

Mae rhai mathau o ddata personol yn fwy sensitif nag eraill ac mae angen lefel uwch o ddiogelu ar eu cyfer. Dosberthir y data hyn fel 'data categori arbennig' a gallai gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur, prosesu data genetig neu fiometrig, iechyd a bywyd rhywiol, a chyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn prosesu'r math hyn o ddata categori arbennig gan eu bod yn angenrheidiol am y rhesymau canlynol:

- Erthygl 9 (2)(g) O fudd sylweddol i'r cyhoedd.
  – Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl

**Â phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?**

Efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol ag adrannau mewnol y cyngor, sefydliadau eraill a thrydydd partïon, yn cynnwys y canlynol:

- Rhestrwch unrhyw adrannau neu sefydliadau y bydd data personol yn cael eu rhannu â nhw.
- **Data disgyblion a data ADY: System rheoli gwybodaeth ysgol (SIMS); Edukey, Wonde, maes iechyd, tîm cynhwysiant, MarvellousMe; yr awdurdod lleol, yn cynnwys canolfannau hamdden, gwasanaethau cymdeithasol, y Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Lleoliad (TAPPAS); Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion, Cynllun Gwên, Kerbcraft, Hwb, Dechrau'n Deg, Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWI), y gwasanaeth iechyd gwladol (GIG), athrawon ymgynghorol allanol; EVOLVE (teithiau ysgol), Power BI, yr Urdd, Times Tables Rock Stars.**
- **Cofnodion staff: Yr awdurdod lleol; Hwb; system rheoli gwybodaeth ysgol (SIMS), cynllun absenoldeb cydfuddiannol, CBAC, Cyngor y Gweithlu Addysg, llywodraethwyr, cyrff eraill at ddibenion atgyfeirio, Estyn, cylchlythyr yr ysgol.**
- **Ffotograffau a fideos: Gwefan yr ysgol, X (Twitter), Facebook, Hwb, y cyfryngau lleol, ac o bosibl, y cyfryngau cenedlaethol, MarvellousMe.**
- **Staff cyflenwi: Hoop, TeacherActive, New Directions.**
- **Adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau: Hwb, adran iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol (meddalwedd adrodd am ddamweiniau Evotix).**

Rydym yn defnyddio proseswyr data (trydydd partïon), sy'n darparu gwasanaethau i ni o ran darpariaeth TG ac adfer ar ôl trychineb. Mae gennym gontractau ar waith gyda'r proseswyr data hyn ac ni allant wneud unrhyw beth â'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi eu cyfarwyddo nhw i wneud hynny. Byddant yn cadw eich data yn ddiogel a bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu yn unol â GDPR y DU yn unig. Pan fydd angen trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU fel rhan o'r contractau hyn, dim ond yn unol â GDPR y DU y gwneir hyn.

Mae gan Ysgol Gynradd Gatholig yr Enw Sanctaidd ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei rheoli. Felly, gallai'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu i ni gael ei defnyddio er mwyn atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio yn fewnol ac yn allanol.

Caiff yr wybodaeth bersonol yr ydym wedi'i chasglu gennych chi ei rhannu ag asiantaethau atal twyll, a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn dilysu eich hunaniaeth. Os caiff twyll ei ganfod, gallai gwasanaethau penodol, cyllid neu gyflogaeth gael eu gwrthod i chi. Gallwch weld rhagor o fanylion am sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, ar wefan CIFAS.

**Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

Bydd Ysgol Gynradd Gatholig yr Enw Sanctaidd ond yn cadw eich gwybodaeth gyhyd ag y bo angen. Byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarparwyd i ni ar gyfer y canlynol:

**Data disgyblion a data ADY:** Caiff eu dileu o SIMS pan fydd disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd. Caiff copïau papur eu dileu ddwy flynedd ar ôl i'r disgyblion adael. Bydd data am ADY yn cael eu trosglwyddo i'r lleoliadau nesaf. Caiff data ar Edukey eu harchifo, nid eu dileu.

**Cofnodion staff:** Cyn gynted ag y bydd staff yn gadael caiff yr wybodaeth amdanynt ei dinistrio.

**Llywodraethwyr ysgol:** Yn ystod eu tymor fel llywodraethwyr yn unig.

**Trip ysgol / ymweliadau:** Caiff y data eu dinistrio unwaith y bydd y daith wedi dod i ben.

**Gwybodaeth am ymwelwyr / manylion mewngofnodi ymwelwyr:** Mae'r wybodaeth hon yn cael ei dileu bob blwyddyn.

**Staff cyflenwi:** Am y cyfnod y maent yn gweithio yn yr ysgol.

**Adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau:** Tair blynedd

Caiff eich gwybodaeth ei dileu'n ddiogel pan na fydd ei hangen mwyach.

**Eich hawliau**

O dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn, gan gynnwys yr hawliau canlynol:

- Yr hawl i **gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn am gael eich gwybodaeth wedi'i chywiro.
- Gall yr hawl i **gyfyngu** ar brosesu fod yn gymwys – gallwch ofyn i ni atal prosesu eich data personol, ond gallai hyn achosi oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn ni'n ymdrechu i gydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i **ddileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol, ond gallai hyn achosi oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth neu barhau i gyflenwi gwasanaeth. Byddwn ni'n ymdrechu i gydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun **gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.**
- Yr hawl i gael **mynediad** – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I gyflwyno cais, cysylltwch â:<br>Mynediad i Gofnodion<br>Cyngor Sir Penfro<br>Neuadd y Sir<br>Hwlffordd

SA61 1TP

Cyfeiriad e-bost: accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk Rhif ffôn: 01437 764551

**Cwynion neu ymholiadau**

Mae Ysgol Gynradd Gatholig yr Enw Sanctaidd yn ymdrechu i fodloni'r safonau uchaf posibl wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion yr ydym yn eu cael am hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i roi gwybod i ni os ydynt o'r farn bod y ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth neu'n ei defnyddio yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr am bob agwedd ar ein gwaith o gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol y mae eu hangen. Dylai unrhyw geisiadau am hyn gael eu hanfon at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Ysgol Gynradd Gatholig yr Enw Sanctaidd
Teras Vergam
Abergwaun
SA65 9DF
01348872506
admin.holyname@pembrokeshire.gov.uk

Os ydych am wneud cwyn am y ffordd yr ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio deddfwriaeth diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Cyfeiriad e-bost: wales@ico.org.uk
Rhif ffôn: 0330 414 6421

**Ein manylion cyswllt fel rheolydd data:**

Ysgol Gynradd Gatholig yr Enw Sanctaidd
Teras Vergam
Abergwaun
SA65 9DF
01348872506
admin.holyname@pembrokeshire.gov.uk
Mae gwybodaeth am ein Swyddog Diogelu Data wedi'i nodi uchod yn yr adran 'cwynion ac ymholiadau'.

**Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.